

Llangadog



Pam Cerdded?

Mae'r ddwy daith gerdded yn cynnig golygfeydd hyfryd o Ddyffryn Tywi a Bannau Brycheiniog. Mae'r teithiau cerdded yn gyfle i gael golwg ar fywyd gwyllt ac maent o ddiddordeb hanesyddol.



Pa mor Hir?

Mae'r daith gylchol fer o amgylch y pentref yn 3.3Km o hyd (2.1 milltir). Mae'r daith hirach i'r gefn gwlad ehangach yn 10.5Km (6.5 milltir).



Pa mor Anodd?

Mae'r ddau lwybr yn mynd ar hyd y dyffryn ac mae'r ddau yn weddol wastad, neu'n mynd dros bant a bryn yn hytrach na thir serth, gydag ychydig o risiau a chamfeydd i ddelio â nhw ar hyd y ffordd. Gall y caeau a'r darnau coetir fod yn gorsiog mewn mannau ar ôl glaw felly rydym yn argymhell eich bod yn gwisgo esgidiau cadarn.



Man cychwyn - Mae man cychwyn da gyda digon o lefydd parcio wrth ochr y ffordd sy'n croesi'r tir comin ger y bont dros afon Sawdde.



Parcio - Pentref Llangadog



Trafnidiaeth Gyhoeddus - ✓




Lluniaeth - ✓

1 Mae'n werth treulio ychydig eiliadau wrth y bont dros afon Sawdde i fwynhau'r olygfa. Yn yr haf rydych yn debygol o weld y Siglen Fraith yn chwilio am bryfed ymysg y cerrig mân, tra bod y Wennol, Gwennol y Glennydd a'r Wennol Ddu yn hedfan fry gan arddangos cyfuniad anhygoel o acrobateg. Gyda lwc, efallai y bydd pobl sy'n mynd heibio yn gweld Pibydd y Dorlan, Bronwen y Dŵr neu Las y Dorlan.

2 Mae comin Carreg Sawdde wedi bod yn dir pori agored ers y 13eg ganrif pan roddodd Esgob Tyddewi hawliau pori i fwrdeisiaid Llangadog. Yn y canol oesoedd, roedd Felindre, i'r de o'r comin, yn ystâd i Arglwyddiaeth Llanymddyfri, ac roedd yno lys a chynhaliwyd ffair flynyddol yno hefyd. Gall patrwm y caeau i'r gorllewin o'r pentref adlewyrchu'r hen gaeau stribed canoloesol.

Mannau o ddiddordeb



3 Ym 1858 agorodd Cwmni Rheilffordd a Doc Llanelli y rheilffordd o Landeilo i Lanymddyfri fel Rheilffordd Dyffryn Tywi. Mae'r rheilffordd bellach yn rhan o reilffordd Calon Cymru sy'n mynd o Abertawe i'r Amwythig.

4 Roedd melin yd Glansefin yn rhan o ystâd Glansefin, lle roedd yn ofynnol i denantiaid yr ystâd ddod â'u hŷd i'w falu.

5 Mae'r llwybr troed yn mynd heibio i hen gerbyty Plasty Glansefin, a arferai fod yn gartref i'r teulu Lloyd, sydd bellach wedi'i droi'n llety gwyliau. Ym 1670, yn unol â dibenion treth, fe'i haseswyd fel tŷ ag wyth aelwyd, sy'n golygu ei fod yn un o'r tai mwyaf yn yr ardal. Gadawodd y teulu'r plas ar ddechrau'r 20fed ganrif, gan ddychwelyd dros dro i ddarparu llety i faciwis yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

6 Yn draddodiadol, roedd y llwybr trwy Goed Cae'r Bedw yn cael ei adnabod gan drigolion hŷn fel Heol y Beddau. Dywedid bod y twmpathau isel a oedd i'w

gweld ar ddechrau'r 20fed ganrif yn fannau claddu rhyfelwyr a oedd wedi marw o'r pla.

7 Mae Castell Meurig yn enghraifft berffaith o gastell mwnt a beili canoloesol. Saif tŷ modern yn y beili. Mae'r llwybr troed yn cynnig golygfa heb ei hail i gerddwyr o fancyn y beili a'r mwnt sydd wedi'i orchuddio â choed y tu ôl iddo. Cipiodd y Tywysog Maelgwyn ap Rhys y castell oddi wrth y Normaniaid gan ddefnyddio "catapyltau a sling" ym 1203, ac ar ôl hynny ymddengys na chafodd ei ddefnyddio. Yn ôl traddodiad lleol, roedd tŵr carreg ar y mwnt ar un adeg.

8 Yn yr haf mae teim gwyllt yn tyfu o dan y clawdd, gan ddenu amrywiaeth o bryfed. Mae ei flodau porffor yn denu Gwyfynod Bwrned. Mae blodau gwyddfid yn persawru awyr yr haf ynghyd â blodau gwyn cain y Rhosyn Gwyllt.